# COW

# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

**Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer COW yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 4 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru.**

| Gweithgareddau Dilynol COW | Cysylltiadau â'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru | |
|---|---|---|
| | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgaredd Rhagarweiniol – Cwis Gyrru'n Ddiogelach | ▪ Cael mynediad i ddata rhifol o ffynonellau ysgrifenedig a graffigol | ▪ Deall y canlyniadau byrdymor a'r canlyniadau mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol |
| 2.a. Gweithgaredd Adroddiad Damwain | ▪ Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi<br>▪ Ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>▪ Gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol | ▪ Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach<br>▪ Deall y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol |
| 2.b Gweithgaredd Trafodaeth Grŵp | ▪ Ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>▪ Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol | ▪ Deall y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol |

HEDDLU POLICE

| | | |
|---|---|---|
| 3. Ymdopi â'r Canlyniadau | ▪ Gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol.<br>▪ Myfyrio ar y rolau i'w chwarae mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys arweinyddiaeth | ▪ Deall y canlyniadau byrdymor a'r canlyniadau mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol |
| 4. Bod yn Dyst | ▪ Ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol | ▪ Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach. |
| 5. Gweithgaredd Gwefan | ▪ Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith a rhagfynegi<br>▪ Dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu<br>▪ Bod yn bendant ac ymwrthod â dylanwad diangen gan gyfoedion a phobl eraill | ▪ Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach<br>▪ Deall yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywydau pobl |
| 6. Pa mor ddiogel fyddwch chi fel gyrrwr? | ▪ Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi | ▪ Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach |
| 7. Arolwg | ▪ Defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol | ▪ Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach |

## 1.Gweithgaredd Rhagarweiniol - Cwis Gyrru'n Ddiogelach

Adolygwch gynnwys gwers y swyddog. Gofynnwch i'r grŵp ailadrodd prif bwyntiau'r wers COW.

Dosbarthwch / Arddangoswch gopïau o daflen gweithgaredd ystadegau (1a). Trafodwch y pwyntiau a godwyd. Dilynwch hwn gyda chyflwyniad

PowerPoint (1b Cwis Gyrru'n Ddiogelach). Cynhwysir yr atebion i'r cwestiynau yn y cyflwyniad.

## 2.a. Gweithgaredd Adroddiad Damwain

Bwriad y gweithgaredd hwn (adnoddau 2.a. a 2.b.) ydy holi ai damweiniol neu beidio oedd y gwrthdrawiad hwn. Ystyriwch a yw'r term "damwain" yn gywir pan leddir neu frifir rhywun.

- Gofynnwch i ddisgyblion ddarllen taflen weithgaredd adroddiad y ddamwain (adnodd 2.a.)
- Mewn parau trafodwch yr adroddiad gyda phartner
- Gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio ar yr opsiynau canlynol:
    - A) Ai damwain ydy hi?
    - B) Oes trosedd wedi cael ei gyflawni?

Cadwch gyfrif a'i arddangos ar y bwrdd. Ewch ymlaen â gweithgaredd 2.b. isod.

## 2.b. Gweithgaredd Trafodaeth Grŵp

Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm dadlau, grŵp "trosedd" a grŵp "damwain". Ar gyfer pob grŵp dewiswch gadeirydd, llefarydd, amserwr, a chrynhöwr.

Gofynnwch i bob grŵp baratoi amddiffyn eu safbwynt ac i wneud rhestr o 3 phwynt o leiaf i gefnogi eu dadl. Trefnwch y dosbarth i drafod y pwnc.

Ar ôl y ddadl, trefnwch bleidlais derfynol a chrynhowch y prif bwyntiau.

## 3. Ymdopi â'r Canlyniadau

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, gan ethol llefarydd ar gyfer pob un. Rhowch weithlen llun o un o'r cymeriadau yn y car i bob grŵp: Cassie, Emma neu Jules (adnodd 3.a). Mae rhaid i bob grŵp ystyried a thrafod y ddamwain o berspectif y cymeriad sydd ganddynt.

- Rhestrwch y ffactorau a gyfranodd i'r ddamwain.
- Ysgrifennwch nodiadau byr am y ddamwain o berspectif eich cymeriad.
- Pa benderfyniadau a wneir gan eich cymeriad sydd yn dylanwadu ar y gyfres drasig o ddigwyddiadau o fewn y ffilm?
- Mewn grwpiau trafodwch pwy neu beth, rydych chi'n meddwl, sydd yn gyfrifol am y ddamwain? (Os nad yw'r grŵp i gyd yn gytûn, yna bydd y mwyafrif yn cynrychioli penderfyniad y grŵp).

Gofynnwch i lefarydd y grŵp adborthi'r atebion. Trafodwch a yw pob grŵp yn rhoi darlun cywir o'r ddamwain.
A fasai swyddog yr heddlu yn gallu cael darlun cywir o'r ddamwain o'r wahanol adroddiadau?
Pwy neu beth oedd yn gyfrifol am y ddamwain yn ôl pob grŵp? Rhestrwch yr atebion fel gram pry cop ar y bwrdd.

Gall damweiniau car gael canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economeg, cyfreithiol, corfforol ac emosiynol. Yn yr achos hwn Cassie ydy cymeriad canolog y ffilm; Mae hi, yn amlwg, wedi cael ei heffeithio'n gorfforol ac yn emosiynol. Dychwelwch at y grwpiau gwreiddiol a chanolbwyntio ar Cassie.(Adnodd 3.b) Trafodwch ganlyniadau posibl y ddamwain hon i Cassie. Sut basen nhw'n meddwl y basai hi'n teimlo ar ôl y ddamwain? Ystyriwch ganlyniadau tymor hir a thymor byr. Ystyriwch bwyntiau fel

- Hunan-barch (sut rydych chi'n teimlo amdanoch chi eich hun).
- Hunanddelwedd (sut rydych chi'n eich gweld eich hun).
- Hunanhyder (eich cred ynddoch chi eich hun i lwyddo).
- Hunan-siarad (sut rydych chi'n siarad â chi eich hun – fel y gwelir yng ngolygfa olaf y ffilm).

Sut mae'r ddamwain yn effeithio ar bob un o'r nodweddion hyn? Pa ansawdd fywyd all Cassie ei disgwyl yn y dyfodol? Os bydd hi'n rhiant sut fasai hi'n cynghori ei phlant am yrru? Rhowch amser i'r grŵp ddatblygu eu syniadau ac yna adolygwch gydag adborth dosbarth.

Drwy weithio o fewn yr un grwpiau, datblygwch chwarae rôl byr wedi'i seilio ar y stori, gan ddangos canlyniadau'r ddamwain i Cassie. Gall y grŵp

gyflwyno cymeriadau ychwanegol a defnyddio deialog i'w wneud yn fwy diddorol. Bydd pob grŵp yn actio eu drama i'r dosbarth a gall y dosbarth ofyn cwestiynau gan y grŵp wedyn drwy ddefnyddio egwyddor seddau poeth.

## 4. Bod yn Dyst

Mae DVD Cow yn adrodd stori grŵp o ferched allan yn y car yn mwynhau eu hunain. Maent yn aros er mwyn i Emma brynu alcohol. Maent yn gyrru ymlaen drwy faes parcio i lygadu'r bechgyn. Gwelir hwy'n rhuthro mynd gan swyddog yr heddlu a'u stopio. Caiff Cassie brawf anadl achos aroglau alcohol yn y car ond yn ffodus dyw hi ddim wedi bod yn yfed. Wedyn maent yn gyrru'n fyrbwyll ar hyd y ffyrdd gan siarad a chwerthin wrth fynd ac felly heb ganolbwyntio ar y ffordd. Mae Cassie ac Emma yn penderfynu pryfocio Jules am fachgen mae hi'n ei hoffi ac mae Cassie yn bygwth ei decstio fe ac yn dechrau ei wneud. Fel canlyniad nid yw hi'n sylweddoli ei bod hi wedi gwyro ar draws y ffordd i'r lôn arall. Erbyn iddi hi sylweddoli mae hi'n rhy hwyr i osgoi damwain achos ei bod hi'n adweithio'n rhy araf. Mae'r car wedi symud ar draws y ffordd ac yn gwrthdaro'n bendramwnwgl â cherbyd yn dod i'w gwrdd. Mae'r gwrthdrawiad yn troi car Cassie o gwmpas fel y mae'n sefyll ar ongl sgwâr ar draws y lôn. Mae'r car newydd sefyll pan ddaw car arall i'w gwrdd a'i daro ar ei ochr gan ei droi eto a'i roi ar ymyl y ffordd. Mae Cassie'n syfrdan ac yn ofnus ond i'r ddwy ferch arall roedd y ddamwain yn angheuol. Mae'r oedolion yn y car arall wedi'u brifo'n angheuol; yr unig oroeswyr ydy'r plant yn y sedd gefn.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Rhowch gopi o adnodd 4.a. a 4.b. i bob grŵp. Esboniwch i'r dosbarth y basent efallai'n dystion i ddamwain, gwrthdrawiad neu argyfwng rhywbryd pan fasai angen iddynt weithredu ar unwaith. Drwy ddefnyddio eu cof o'r digwyddiad a ddarluniwyd yn y DVD, gofynnwch i bob grŵp drafod beth fasent yn ei wneud i helpu. Drwy ddefnyddio'r daflen waith (adnodd 4.b) dylai pob grŵp ysgrifennu rhestr o bethau a allai gael eu gwneud (colofn a) ac yna ystyried y peryglon iddynt eu hunain ac eraill (colofn b). Gofynnwch i'r dosbarth atborthi eu hatebion a thrafod ymarferoldeb pob awgrym. Anfonwch y dosbarth yn ôl

i'w grwpiau i gwblhau colofn c drwy benderfynu ar eu gweithredoedd terfynol.

Awgrymiadau

- Ymdriniwch â'r peryglon dybryd yn gyntaf – gwnewch yn siwr eich bod yn cadw'ch hunan allan o berygl. Os yn bosibl rhybudddiwch drafnidiaeth arall. Peidiwch â gadael i neb ysmygu. Peidiwch â mynd yn agos at y cerbyd sydd wedi cael y ddamwain.
- Ewch i ôl help yn gyflym – galwch ar y gwasanaethau brys neu gofynnwch i rywun sydd yno i'w wneud i chi.
- Cysurwch y rhai sydd yn gysylltiedig â'r ddamwain - gan gadw pellter diogel; rhowch wybod i'r clwyfedigion fod help yn dod.

## 5. Gweithgaredd Gwefan

Mae gwefan "Deadly Mates" yn darparu amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol ar gyfer y disgyblion.

Gofynnwch i'r disgyblion ymweld â'r wefan:-www.deadlymates.com

Rhannwch y dosbarth yn chwe grŵp a gofynnwch i bob grŵp geisio un gweithgaredd o'r rhestr canlynol. Pan fyddant i gyd wedi cwblhau eu tasg gofynnwch i'r disgyblion adrodd yn ôl ar y gweithgaredd.

DEADLY MATES

Who are yours?

Home – Cartref

- Who are Deadly Mates? - Pwy ydy "Deadly Mates"
- Who are yours? - Pwy ydy'ch rhai chi?
- Test Track - Trac Prawf
- Do something about them - Gwnewch rywbeth amdanynt
- Driving safely - Gyrru'n ddiogel
- The facts - Y ffeithiau

## 6. Pa mor ddiogel fyddwch chi fel gyrrwr?

Dosbarthwch y daflen gwestiwn "Pa mor ddiogel fyddwch chi fel gyrrwr?" (adnodd 6.a) i bob disgybl. Gofynnir i'r disgyblion nodi eu hymateb syth i bob un o'r gosodiadau a gynhwysir a darganfod eu sgôr am bob adran.

Pan fydd y disgyblion wedi cwblhau'r dasg, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch gopi o'r daflen sgôr iddynt (adnodd 6.b). Gofynnwch i'r grŵp drafod eu sgorau a chreu taflen ffeithiau ar gyfer darpar yrrwyr newydd, gan restru beth maent yn ystyried yn negeseuon diogelwch allweddol. Atborthwch i'r dosbarth.

Gofynnwch i'r dosbarth ystyried canlyniadau bod yn yrrwr anniogel:

- Pwy fasai'n cael ei effeithio gan weithredoedd gyrrwr anniogel?
- Ym mha ffyrdd?

*Bydd y gweithgaredd hwn yn codi nifer o bwyntiau pwysig. Dylai athrawon fod yn ymwybodol y gallai disgyblion fod wedi cael profiadau annymunol a dylent fod yn barod i ymdrin â'u hymatebion.*

## 7. Arolwg

Mewn parau gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r arolwg (adnodd 7.a). Gallai disgyblion ofyn i'w gilydd neu os bydd amser ac adnoddau yn caniatau gallent ofyn i ddisgyblion eraill yn yr ysgol. Crynhowch y canlyniadau drwy ddefnyddio taflen arolwg i gasglu'r data (mae adnodd 7.a hefyd ar gael fel sleid PowerPoint 7.b). Atborthwch y canlyniadau cyflawn i'r dosbarth.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch iddynt drafod y casgliadau.

a. Gofynnwch iddynt enwi'r ymddygiad sydd yn anniogel:

- i'r gyrrwr
- i'r teithwyr

b. Gofynnwch iddynt benderfynu pa grŵp o bobl sydd fwyaf mewn perygl:

- y gyrrwyr
- y teithwyr

c. Dosbarthwch un o'r canlynol i bob grŵp i fapio yn y meddwl eu hymatebion:

- Ffyrdd i aros yn ddiogel fel teithiwr
- Ffyrdd i aros yn ddiogel fel gyrrwr/beiciwr
- Ffyrdd i aros yn ddiogel fel cerddwr

Atborthwch i'r dosbarth.